# Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn

**Heol y Bardd, Porth Tywyn,**
**Sir Gaerfyrddin SA16 0NL**
**Ffôn:- 01554 832101**
**Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru**
**www.ysgolparcytywyn.co.uk**
**Pennaeth / Headteacher : Mr C Davies**


20/09/2021

## COVID - 19

Annwyl riant / gwarcheidwad

Fel llawer o ysgolion yn Sir Gaerfyrddin a ledled Cymru, rydym yn gweld achosion wedi'u cadarnhau o COVID-19 yn ein hysgol.

Yn anffodus, mae hyn i'w ddisgwyl wrth inni symud tuag at reoli a byw gyda'r feirws, ynghyd â'r nifer cynyddol o achosion yn ein cymunedau.

Fodd bynnag, hoffem eich sicrhau nad oes achos pryder ar unwaith. Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a Prawf, Olrhain, Amddiffyn (TTP) GIG Cymru, ac rydym yn dilyn yr holl gyngor ac arweiniad a roddwyd inni. Yn benodol, maent yn hapus iawn â'r prosesau a'r mesurau sydd gennym ar waith i leihau'r trosglwyddiad yn yr ysgol gymaint â phosibl.

Os nodir bod eich plentyn yn gyswllt agos ag achos COVID-19 a gadarnhawyd, bydd TTP yn cysylltu â chi ac yn cynnig dau brawf PCR ar ddiwrnodau dau ac wyth. Byddwch hefyd yn cael gwybodaeth am yr hyn y gellir ei wneud i leihau unrhyw risgiau o ymledu ymlaen. Gall eich plentyn barhau i fynychu ei ysgol oni bai ei fod yn datblygu symptomau neu'n cael ei gynghori fel arall gan TTP. Dim ond os yw'n bositif y bydd angen i chi hysbysu'ch ysgol o'r canlyniad.

Cofiwch:

- Os yw eich plentyn yn dangos unrhyw un o symptomau 'clasurol' Covid-19 (tymheredd uchel, peswch parhaus newydd neu golled neu newid blas/arogl) ni ddylai fynychu'r ysgol. Archebwch brawf PCR drwy ffonio 119 neu ewch i https://gov.wales/apply-coronavirus-test

- Os yw'r prawf yn gadarnhaol, rhowch wybod i'r ysgol neu y tu allan i oriau, ffoniwch Delta Wellbeing ar 0300 333 2222 neu drwy anfon e-bost at TTP@deltawellbeing.org.uk a fydd yn hysbysu'r ysgol ar eich rhan. Dylai eich plentyn hunanynysu a pheidio â mynychu'r ysgol tan y dyddiad a roddir gan y gwasanaeth TTP.

- Rydym yn annog pob disgybl uwchradd i gymryd profion LFT ddwywaith yr wythnos. Mae hyn yn helpu i adnabod yn gyflym y rhai sy'n cario'r feirws yn ddiarwybod a gall helpu i arafu'r lledaeniad a helpu i ddiogelu'r rhai mwyaf agored i niwed. Os yw prawf LFT yn gadarnhaol, rhowch wybod i ni ac archebwch brawf PCR. Peidiwch â mynychu'r ysgol oni bai bod y prawf PCR yn negyddol.

Diogelwch ein disgyblion a'n staff yw ein prif flaenoriaeth ac rydym wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein hysgolion mor ddiogel â phosibl, ond mae'n bwysig ein bod i gyd yn gweithio gyda'n gilydd ac yn dilyn canllawiau cyffredinol COVID gan gynnwys profi'n aml, cadw plant gartref os ydynt yn dangos unrhyw symptomau, waeth pa mor ysgafn, a chael y brechlyn pan gaiff ei gynnig (yn cynnwys pobl ifanc 16 ac 17 oed).

Mae'n bwysig ein bod yn parhau i olchi ein dwylo yn rheolaidd a gwisgo gorchuddion wyneb lle bo angen - er nad yw gorchuddion wyneb yn cael eu hargymell yn yr ystafell ddosbarth mwyach, dylai disgyblion ysgolion uwchradd barhau i'w gwisgo ar gludiant ysgol ac mewn ardaloedd cymunedol.

Dim ond os yw'r risgiau lleol yn wahanol i'r sefyllfa genedlaethol y bydd angen i ysgolion ystyried rhoi mesurau pellach ar waith, a bydd y cyngor yn gweithio'n agos gydag ysgolion i benderfynu sut y dylid teilwra'r mesurau hyn os oes eu hangen.

Gobeithiwn fod y wybodaeth rydym wedi'i darparu yn galonogol ac yn ddefnyddiol, fel bob amser, rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaus. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni.
I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau ysgolion yn ystod COVID gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i wefan y cyngor sirgar.llyw.cymru/addysg a dilynwch @CarmsCouncil ar Facebook a Twitter.

**Dolenni Defnyddiol**

Prawf Olrhain Diogelu: https://gov.wales/test-trace-protect-coronavirus

Gwybodaeth gyffredinol am COVID: https://gov.wales/protect-yourself-others-coronavirus
Symptomau a Hunan-ynysu: https://gov.wales/symptoms-and-self-isolation-contact-tracing

Cymorth meddygol: https://gov.wales/check-if-you-need-coronavirus-medical-help

Diolch am eich cydweithrediad.

*C Davies*
Pennaeth / Headteacher